



Bwrdd Diogelu Gwladol Annibynnol Cymru

Adroddiad Blynyddol 2015–16

yn cynnwys crynodeb
hawdd-ei-ddarllen



Cyflwyniad	5
1. Darparu cefnogaeth a chynghor i Fyrddau Diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol	7
2. Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru	11
3. Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r modd y gellir gwella'r trefniadau hynny	13
a. Diffiniadau o gam-drin, esgeulustod, niwed a risg	15
b. Y potensial i ddiogelu	17
c. <i>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015</i>	23
Aelodau'r Bwrdd Diogelu Gwladol Annibynnol	27
Atodiad 1: Nodiadau o ymgynghoriad NISB gyda Chadeiryddion y Byrddau Diogelu ac arweinwyr AGGCC ac AGIC ar 23 Awst, 2016	31
Atodiad 2: Y cysylltiad rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a (i) Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a (ii) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015	35
Acknowledgements	37

Hwn yw **adroddiad** cyntaf y **Bwrdd Diogelu Gwladol Annibynnol**.

Caiff y corff hwnnw ei adnabod hefyd fel y **Bwrdd Gwladol**.

Mae gan y **Bwrdd Gwladol chwech** o Aelodau.

Maent yn gweithio'n **rhan amser** bob un.

Dyletswydd y **Bwrdd Cenedlaethol** yw:



Helpu'r **Byrddau Diogelu** yng **Nghymru** i weithio'n effeithiol.



Gwneud adroddiadau ar ba mor effeithiol y maen nhw wrth **amddiffyn** pobl rhag **cael eu cam-drin**.



Dweud wrth **Lywodraeth Cymru** sut y gallai gwaith y **Byrddau Diogelu** gael ei wella.



Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf y Bwrdd Diogelu Gwladol Annibynnol a sefydlwyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae gan y Bwrdd Gwladol dair dyletswydd sylfaenol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- 1. Darparu cefnogaeth a chyngor i Fyrddau Diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol**
- 2. Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru**
- 3. Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r modd y gellir gwella'r trefniadau hynny (Adran 132 (2)).**

Mae'r rheoliadau a wnaed yn unol â Ddeddf 2014 yn nodi'r ffordd y dylai'r Bwrdd Gwladol arfer ei swyddogaethau. Un swyddogaeth bwysig yw'r angen i ymgynghori â'r rheiny a allai gael eu heffeithio gan y trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru.¹

Mae'r Bwrdd Gwladol yn gweithio yn rhan-amser. Disgwylir i'w chwe aelod dreulio o leiaf ddiwrnod y mis yn gweithio ar faterion y Bwrdd Gwladol.

¹ Rheoliad 7 o Reoliadau Bwrdd Diogelu Gwladol Annibynnol (Cymru) (Rhif 2) 2015

Mae'r **Bwrdd Gwladol** yn siarad â llawer o bobl.

Bydd rhai ohonynt wedi **dioddef camdriniaeth a niwed**.

Rhaid i'r **Bwrdd Gwladol** sicrhau bod pob Bwrdd Diogelu yn gweithio'n effeithiol yng **Nghymru**.

Mae **Byrddau Diogelu Plant** lleol yn gweithio ar y cyd â:

- yr Heddlu
- y Gwasanaethau Cymdeithasol
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol



Mae hi'n bwysig bod **gweithwyr proffesiynol** a **rheolwyr** yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae hynny'n ei gwneud hi'n fwy tebygol y byddant yn **llwyddo**.

Mae hi'n bwysig bod Aelodau'r **Bwrdd Diogelu** yn gwneud cymaint ag y gallant i:

- **Ddiogelu plant, pobl ifainc** ac **oedolion**
- a'u **hatal** rhag cael eu **niweidio**.

Os yw **rheolwyr** yn gweithio gyda'i gilydd maent yn fwy **pwerus**.

Mae hynny'n golygu eu bod yn fwy tebygol o wneud pobl yn **ddiogel**.

1. Darparu cefnogaeth a chyngor i Fyrddau Diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol

Mae rôl y **Byrddau Diogelu Plant Lleol (BDPLI)** wedi ymwneud hyd yn hyn â diogelu a hyrwyddo lles **plant a phobl ifainc** yn eu hardaloedd. Mae Byrddau Diogelu Lleol wedi anelu bob amser i hyrwyddo dulliau gwaith aml-ddisgyblaethol ymhlith aelodau'r Byrddau Diogelu Plant Lleol, a hynny yn fwyaf arbennig yn eu perthynas â'r heddlu a'r GIG. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru² yn nodi (i) sut y dylai asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol weithio gyda'i gilydd i warchod plant rhag niwed, a (ii) sut y dylai'r BDPLI gydlynu'r gwaith hwn.

Yn ystod 2008, darparodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol³ dystiolaeth o welliannau o ran diogelu plant ond nodwyd hefyd bod angen sylw ar drefniadau gwaith, yn arbennig felly yng nghyd-destun cyfranogiad uwch reolwyr. Cafwyd hefyd fod yna ormod o ddibyniaeth ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod swyddogaethau diogelu yn cael eu cydlynu. Yn ystod 2009, cadarnhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru⁴ bod staff y GIG yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â gwarchod plant, ac o bryderon parthed rhannu gwybodaeth oddi mewn i a thu hwnt i'w sefydliadau ei hunain. Fodd bynnag, cafodd arolygiad o'r Byrddau Diogelu Lleol⁵ yn ystod 2009, "*nad yw Byrddau Diogelu Lleol yn gyffredinol yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol fel y'u disgrifir yn adran 31 (1) Deddf Plant 2004 ...*" (para 8).

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad Mewn Dwylo Diogel yn 2000, gyda'r nod o ddatblygu gwaith amlddisgyblaethol a monitro ac ymateb i bryderon am **gam-drin oedolion**. Er mor werthfawr oedd y prosesau a nodwyd yn y canllaw hwn, dim ond i **oedolion sy'n wynebu risg** yr oeddent yn berthnasol; hynny yw, yr oedolion hynny y mae angen neu y gallai fod angen gwasanaethau gofal cymunedol arnynt. Ymhellach, yn ôl Bwrdd Prosiect Amddiffyn Oedolyn sy'n Wynebu Risg, a sefydlwyd yn 2008, roedd angen i'r gwaith o ddiogelu oedolion gael ei ategu gan ddeddfwriaeth ac roedd angen canllawiau newydd i awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ac i'r holl asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r gwaith o amddiffyn oedolion. Cafodd hyn ei gadarnhau gan yr adolygiad o *Mewn Dwylo Diogel* a gwblhawyd yn 2010 gan y Sefydliad Cymreig er Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phrifysgol Morgannwg. Yn unol â Deddf 2014, sefydlwyd Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion,⁶ wedi'u rheoleiddio gan is-ddeddfwriaeth newydd a'u harwain gan y Cod a ddisgrifir yn Rhan 7.

2 *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd yn unol â Deddf Plant 2004*

3 *Diogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru: adolygiad o Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Diogelu Plant Lleol*

4 *Diogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru: Adolygiad o'r trefniadau sydd ar waith ar hyd a lled Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru*

5 gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn), Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi

6 Cânt eu rheoleiddio yn awr gan is-ddeddfwriaeth newydd a'u harwain gan y Cod yn Rhan 7 Deddf 2014



Nod **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)** yw **amddiffyn** pawb rhag cael eu **cam-drin** neu eu **niweidio**.

Rhaid i'r **Byrddau Diogelu** wneud yn siŵr bod y gwaith hwn yn cael ei wneud yn **iawn**.

Mae Deddf 2014 yn nodi amcanion statudol y Byrddau Diogelu, yng nghyd-destun diogelu plant:

1. *“Amddiffyn plant yn yr ardal benodol sy’n dioddef, neu sydd mewn perygl o ddioddef, camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, ac*
2. *Atal plant yn yr ardal benodol rhag wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed” (Ad.135 (1))*

ac yng nghyd-destun oedolion:

(a) *“Amddiffyn oedolion yn yr ardal benodol sydd -*

(i) *Angen gofal a chymorth (pa un ai yw’r awdurdod lleol yn bodloni unrhyw un o’r anghenion hynny ai peidio)*

(i) *Yn dioddef, neu sydd mewn perygl o ddioddef, camdriniaeth neu esgeulustod, a*

(b) *Atal yr oedolion hynny yn yr ardal benodol ... rhag wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod” (Ad.135 (2)).*

Mae Deddf 2014 hefyd yn datgan bod yn rhaid i Fwrdd Diogelu, *“Geisio cyflawni ei amcanion drwy gydlynw a sicrhau effeithiolrwydd yr hyn a wneir gan bob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd” (Ad.135 (3)); ac i nodi’r cynigion a wneir er mwyn cyflawni’r amcanion ar ddechrau pob blwyddyn ariannol (Ad. 136 (1)); ac i “gydweithredu â’r Bwrdd Gwladol ac i ... roi i’r Bwrdd Gwladol unrhyw wybodaeth y gwneir cais amdani” (Ad. 139 (1)).*

Disgwylir i bob Bwrdd Diogelu nodi a meincodi’r meysydd lle mae angen gwelliant. Mae’r canllawiau statudol yn datgan mai un o swyddogaethau’r Byrddau Diogelu yw *“adolygu anghenion hyfforddiant y gweithwyr hynny sy’n cynrychioli meysydd gweithgarwch y Bwrdd er mwyn nodi gweithgareddau hyfforddi a sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar sail rhyngasiantaethol ac ymhob sefydliad unigol er mwyn cynorthwyo â’r gwaith o warchod ac atal camdriniaeth ac esgeulustod o blant ac oedolion sydd yn wynebu risg yn ardal y Bwrdd penodol” (para.113 (j)).*

Bydd y **Bwrdd Gwladol** yn gofyn i'r **Bwrdd Diogelu** am wybodaeth.



Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r **Byrddau Diogelu** wneud adroddiadau am y materion canlynol:

- Yr hyn a **gyflawnwyd**
- Yr hyn y **maent yn bwriadu ei gyflawni**
- Sut y **byddant** yn **cefnogi** ei gilydd er mwyn gwneud pobl yn **ddiogel**.

Bydd y **Bwrdd Gwladol** yn gwneud adroddiad ar ba mor effeithiol y mae'r **Byrddau Diogelu** o ran cadw pobl yn **ddiogel**.

Mae'r **Bwrdd Gwladol** yn ymwybodol bod gan y **Byrddau Diogelu** lawer o **gyfrifoldebau**.

Weithiau, nid yw'n **bosib** cadw **pawb yn ddiogel**.

Dechreuodd y **Bwrdd Gwladol** ar ei waith ym **mis Ebrill 2016**.

Y flwyddyn nesaf bydd yn gofyn i'r **Byrddau Diogelu** ynglŷn â'r canlynol:

- Yr hyn y maent yn ei **wneud**
- Yr hyn y maent yn ei **ddysgu**

2. Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru

O ran y Byrddau Diogelu, rôl ymgynghorol yn unig sydd gan y Bwrdd Gwladol. Nid yw'n goruchwyllo nac yn hierarchaidd. Y mae'r Bwrdd Gwladol, fodd bynnag, yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu'r Byrddau Diogelu. Mae'r heriau hynny'n cynnwys y canlynol:

- oedi wrth roi'r canllawiau ar waith
- gwaith diogelu heb ei ariannu
- penderfynu ai enghraifft o ymddygiad gwael neu o esgeulustod ffurfiol yw'r hyn a welir mewn achos penodol
- derbyn na all pob achos o gam-drin gael ei ddatrys trwy ddulliau cyfreithiol
- angen am staff sydd wedi eu hyfforddi a'u goruchwyllo'n digonol

[Gweler cyfraniad Cadeiryddion y Byrddau Diogelu a chyfraniadau gwaith AGGCC ac AGIC i'r uchod yn Atodiad 1.]

Er i'r Bwrdd Gwladol ddod i fodolaeth, yn dechnegol, ym mis Tachwedd 2015, nid oedd yn weithredol tan 6 Ebrill 2016. Felly nid yw'n bosibl eto i roi adrodd cywir am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r amcanion hynny, mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn bwriadu casglu gwybodaeth a data am y canlynol:

1. polisiâu a gweithdrefnau, a phriodoldeb a chysondeb eu gweithrediad
2. cysondeb yr hyfforddiant mewn prosesau diogelu
3. sut mae Byrddau Diogelu yn cyflawni eu swyddogaethau statudol
4. rhannu gwybodaeth ac arferion gwaith gorau
5. effeithiolrwydd a chysondeb y modd y dysgir gwersi pob math o adolygiad ac ymchwiliad
6. cysondeb gweithrediad Gorchmynion Diogelu a Chefnogi Oedolion a'u heffeithiolrwydd wrth wella'r broses o ddiogelu oedolion mewn perygl
7. y rhyngwyneb ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion (para. 262, Rhan 7 y Canllawiau ar Ddiogelu).

Yng nghyd-destun yr uchod, bydd y Bwrdd Gwladol yn pennu'r canlynol:

- Pa wybodaeth y mae angen ei chasglu
- Sut y mae mynd ati i ddarparu cyngor a chefnogaeth
- Sut y mae mynd ati i ymgynghori, gyda phwy y gwneir hynny ac at ba ddibenion
- Sut y gall pobl sy'n hysbys i Fyrdau Diogelu, a'u perthnasau nhw, gyfrannu at y broses

Rhagwelir y bydd hyn yn rhoi sail i'r Bwrdd Gwladol a fydd yn caniatáu iddo fesur digonolrwydd ac effeithiolrwydd ac argymell gwelliannau.⁷

Mae'r **Bwrdd Gwladol** wrthi'n penderfynu pa **wybodaeth** y dylid ei **chasglu**.

Maent yn **ystyried** y **modd y dylent** weithio gyda phobl sydd:

- Yn cael eu **niweidio**
- Yn wynebu **risg** o **niwed**



Bydd y **Bwrdd Gwladol** wedyn yn dweud wrth **Lywodraeth Cymru** sut, yn eu barn nhw, y gallai pethau gael eu **gwella**.

Bydd y **Byrddau Diogelu** yn cyhoeddi eu **hadroddiadau** cyntaf yn **2017**.

Bydd y **Bwrdd Gwladol** yn darllen pob un o'r **adroddiadau** hyn.

Bydd hyn yn ei helpu i **ddeall** pa mor effeithiol y mae'r **Byrddau Diogelu** wrth **wneud** yr hyn y mae **angen ei wneud**.

Bydd y **Bwrdd Gwladol** yn tynnu sylw at fathau **tebyg** o wybodaeth - **tueddiadau** neu **themâu**.

Bydd hyn yn helpu'r **Bwrdd Gwladol** i ddysgu am y **newidiadau** a allai fod yn ddefnyddiol wrth geisio gwneud pobl yn **fwy diogel**.

Mae'r **adroddiad** hwn yn egluro yr hyn a olygir yn **Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)** pan sonnir am '**Ddiogelu**'.

3. Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru⁸ ynglŷn â'r modd y gellir gwella'r trefniadau hynny

Maes o law, bydd Adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Gwladol yn cynnwys gwybodaeth am waith a chanlyniadau Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion. Fodd bynnag, gan nad yw'n ofynnol i'r Byrddau hyn gyhoeddi eu Hadroddiadau Blynyddol nhw tan fis Gorffennaf 2017, bydd y Bwrdd Gwladol yn y cyfamser yn manteisio ar y cyfle i dynnu sylw at oblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 i wasanaethau diogelu drwy ymwneud â'r canlynol:

- a. diffiniadau o gamdriniaeth, esgeulustod, niwed a risg
- b. y potensial i ddiogelu
- c. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- ch. y rhyngwyneb rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 ac (i) Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 (gweler Atodiad 2)

Bydd y sail hon yn fodd i wella'r argymhellion y gall y Bwrdd Gwladol eu rhoi i Weinidogion Cymru ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau diogelu ac a oes modd gwella'r rhain ai peidio.

⁸ Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon, a'r Gweinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol a Iechyd y Cyhoedd

Mae'n ymdrin â'r canlynol:

Camdriniaeth

Mae hynny'n golygu **anafu** person.

Gall **cam-drin** ddigwydd pan gaiff person ei **daro, ei ddal yn erbyn ei ewyllys, ei gasáu** neu ei **adael**.

Gall ddigwydd pan orfodir **person** i gymryd rhan mewn gweithred **rywiol yn erbyn ei ewyllys**.

Gall ddigwydd pan fydd rhywun yn **brifo** teimladau person arall neu yn gwneud iddyn nhw deimlo'n **israddol**.

Esgeuluso

Mae esgeulustod yn digwydd pan na chaiff **anghenion** person eu diwallu.

Niwed

Mae hyn yn golygu **difrod** neu **niwed** a achosir i **gorff person**.

Gall hefyd gynnwys **brifo** teimladau **rhywun**.

Os dywedir bod person yn **wynebu risg** mae hynny'n golygu:

- Eu bod yn cael eu **cam-drin** neu eu **hesgeuluso**
- Ei bod yn wynebu posibilrwydd o **gamdriniaeth** neu **esgeulustod**
- Na allant **amddiffyn** eu hunain

a. Diffiniadau o gam-drin, esgeulustod, niwed a risg

Mae Deddf 2014 yn nodi "amddiffyniad rhag camdriniaeth ac esgeulustod" fel elfen hanfodol o les person (Ad.2). Mae'n diffinio cam-drin yn Ad.197 fel "[cam-drin] corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol ... (gan gynnwys cam-drin sy'n digwydd mewn lleoliad o unrhyw fath, boed hwnnw'n gartref preifat, sefydliad neu unrhyw fan arall), ac mae 'cam-drin ariannol' yn cynnwys -

- (a) Dwyn arian neu eiddo arall;
- (b) Dioddef twyll;
- (c) Dioddef pwysau gan rywun arall mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;
- (ch) Dioddef achos o gamddefnyddio arian neu eiddo arall."

Mae enghreifftiau o bob math o gam-drin ac esgeulustod i'w gweld yn y canllawiau statudol (para. 26).

Mae Ad.197 yn diffinio **esgeulustod** fel "methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, a hynny'n debygol o arwain at niwed i les y person (er enghraifft, niwed i iechyd y person neu, yn achos plentyn, niwed i ddatblygiad y plentyn."

Mae'r diffiniadau o gamdriniaeth ac esgeulustod yn berthnasol i blant ac oedolion fel ei gilydd.

Mae osgoi **niwed** hefyd yn hollbwysig yn y cysyniad o ddiogelu yng nghyd-destun **plant**:

Mae "niwed" wrth sôn am blentyn yn golygu cam-drin neu niweidio (a) iechyd corfforol neu feddyliol neu (b) ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol ac mae pa un ai yw'r "niwed" hwnnw yn sylweddol neu beidio yn ddibynnol ar gymhariaeth â'r hyn y gellid yn rhesymol ddisgwyl ei weld mewn plentyn tebyg (Ad.197).

Mae "plentyn mewn perygl" yn "blentyn sydd (a) yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, a (b) plentyn a chanddi/o anghenion gofal a chymorth (pa un ai yw'r awdurdod yn bodloni unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio" (Ad.130 (4)).

Mae adran 130 yn nodi bod gan asiantaethau partner "ddyletswydd i wneud adroddiad" am "blentyn sy'n wynebu risg."

Mae'r ddyletswydd i wneud ymholiadau yn unol ag Ad.47 Deddf Plant 1989 yn parhau mewn grym ac nid oes yna newid i'r adran honno yn Neddf 2014 (Ad.130 (6)).

Mae adran 126 (2) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod lleol wneud ymholiadau ac i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau angenrheidiol os oes yna achos rhesymol i amau bod **oedolyn** yn ardal yr Awdurdod Lleol mewn perygl. Diffinnir oedolyn mewn perygl fel un "sydd (a) yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod, a (b) unigolyn ag anghenion gofal a chymorth (pa un ai yw'r awdurdod yn bodloni unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio), a (c) unigolyn sydd, o'r herwydd, yn methu ag amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu'r risg o gam-drin neu esgeulustod" (Ad.126 (1)).

Mae ar asiantaethau partner "ddyletswydd i wneud adroddiad" os gellir yn rhesymol gredu y gallai oedolyn fod mewn perygl (Ad. 128).

Nid yw Deddf 2014 yn cyfeirio mewn unrhyw fodd at "feini prawf o ran cymhwyster" neu at "drothwyon" yng nghyd-destun risg. Mae hynny'n gwbl fwiadol. Mae'r gwahanol fathau o gamdriniaeth bosib mor eang fel y byddai'n bosib, o ddiffinio'n rhy gyfyng, i rai enghreifftiau syrthio y tu allan i gwmpas y meini prawf.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)** yn nodi bod yn rhaid i bob **gweithiwr proffesiynol wneud adroddiad am** unrhyw un a allai fod mewn perygl yn eu **hawdurdod lleol**.



Mae hyn yn rhan o'r broses **Ddiogelu**.

Mae **Diogelu** yn ymwneud â ffyrdd o atal pobl rhag cael eu **cam-drin** neu eu **hesgeuluso**, cyn i hynny ddigwydd.

Mae hyn yn **gwarchod** y bobl hynny rhag **dioddefaint**.

Gall y **dioddefaint** hwnnw gael effeithiau negyddol ar bobl ifainc wrth iddynt dyfu'n **oedolion**.

Mae'r **Bwrdd Gwladol** a'r **Byrddau Diogelu** yn awyddus i **atal** hynny.

Dim ond ar ôl dod i wybod am achosion penodol y gall **gweithwyr proffesiynol** weithio i atal **camdriniaeth** neu **esgeulustod**.

Dyma pam y mae'r neges **DYWEDWCH WRTH RYWUN** mor **bwysig**.

b. Y potensial i ddiogelu

Mae'r Bwrdd Gwladol yn cydnabod bod yr angen i atal niwed yn un o dasgau mwyaf heriol holl weithgarwch dyn. Er enghraifft, mae ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru⁹ yn dangos bod cam-drin yn gysylltiedig â sbectwm o niwed yn y tymor hwy a hynny'n amrywio o symptomau mwy ysgafn fel gofid i broblemau â chamddefnyddio sylweddau (cyffuriau), niwed i iechyd meddwl a hunanladdiad. Mae'n dilyn, felly, bod canlyniadau camdriniaeth yn mynd y tu hwnt i ddioddefaint unigol a bod i'r canlyniadau hynny gostau economaidd a dynol sylweddol. Serch hynny, gwelwyd cynnydd yn yr ymwybyddiaeth gyhoeddus o wahanol fathau o gam-drin ac, yn fwy diweddar, mae ecsbloetio plant yn rhywiol, masnachu pobl a sgamio a rheoli pobl wedi dod yn rhan o'r eirfa gyffredin. Hynny yw, wrth i ganfyddiad y cyhoedd o'r termau hyn gynyddu, felly y mae'r disgwyliadau parthed diogelu yn cynyddu. Mae angen dulliau realistig, felly. Mae unigolion sy'n mynegi eu pryderon ynghyd â chydweithredu proffesiynol yn ffactorau hanfodol ill dau o ran sicrhau bod y broses ddiogelu yn effeithiol. Mae hi'n hanfodol hefyd ein bod yn casglu data sy'n ymwneud â phrofiad pobl o niwed – er bod arwyddocâd ac effeithiau hynny yn gyfyngedig i'r hyn sy'n wybyddus.

Gwnaeth y cyfryngau gyfraniad sylweddol o ran datgelu yr ehangder a'r amrywiaeth o wahanol fathau o gam-drin sy'n bosib drwy hybu syniad o gam-drin ac esgeuluso i gynnwys ystyriaeth o'r canlynol:

- Colli tymer
- Defnydd o rym corfforol fel smacio
- Manteisio ar freuder corfforol a meddyliol pobl
- Camddefnydd o alcohol a sylweddau (cyffuriau)
- Tor perthynas

9 <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/40000> (cyrchwyd ar 26 Hydref 2016)

Mae llawer o **weithwyr proffesiynol** wrthi'n casglu **gwybodaeth**.

Bydd hyn yn eu helpu i:

- **Drin** poen ac anafiadau pobl
- **Herio** gwasanaethau penodol
- Erlyn troseddwr yn y **llysoedd**



Mae yna enghreifftiau **clodwiw** o **atal camdriniaeth** gan weithwyr mewn **ysbytai, gwasanaethau cymdeithasol** ac **ysgolion**.

Mae yna enghreifftiau **clodwiw** o **blant, pobl ifainc** ac **oedolion dewr** yn rhannu eu profiadau nhw o gael eu **niweidio**.

Fodd bynnag, dim ond cipolygon yw'r rhain ar y darlun cyflawn. Mae'n rhaid i ni ddibynnu ar weithwyr proffesiynol i ddarparu cyd-destun ehangach. Rôl yr heddlu, cyfreithwyr, rheoleiddwyr, crwneriaid, ymchwilwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yw casglu a hidlo ffeithiau ac ystyried pa mor ddibynadwy ydynt. Mae enghreifftiau o ymyriadau gwerthfawr – ymyriadau a arweiniodd at ganlyniadau cadarnhaol – yn cynnwys:

- radiolegwyr pediatrig yn cwestiynu a allai toriadau i esgyrn a hematoma fod wedi cael eu hachosi gan rieni;
- gweithwyr cymdeithasol, iechyd meddwl a gweithwyr gyda throseddwyd ifainc, seicolegwyr, seiciatryddion ac ymchwilwyr yn cadarnhau y gall fod i drais a cham-drin effeithiau hirdymor ar iechyd meddwl unigolyn;
- bydwragedd, nyrsys ac athrawon yn nodi y gall babanod a phlant nad ydynt yn cael eu hamddiffyn rhag trais a chamdriniaethau eraill yn y cartref ei chael hi'n anodd dysgu, ac y byddant yn ymddwyn, o'r herwydd, mewn ffyrdd sy'n ennyn gofid;
- rheoleiddwyr ac arolygwyr yn tynnu sylw at yr her o weithio gyda pherchnogion cartrefi gofal sy'n gwadu bod yna unrhyw beth o'i le ar eu cartrefi nhw.

Mae eraill hefyd wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr at y gwaith o gasglu a hidlo ffeithiau:

- merched o bob oed, ac yn fwy diweddar, ddynion, sydd wedi magu digon o hyder i dynnu sylw at eu profiadau nhw o drais yn y cartref;
- oedolion ifainc a fagwyd mewn cartrefi gofal, yn enwedig y rheiny nad ydynt wedi gallu setlo, yn dangos sut y gallan nhw wynebu risg parhaus o niwed;
- goroeswyr, rhybuddwyr a pherthnasau y mae eu hanesion nhw o gael eu cam-drin gan oedolion a/neu gan gyfoedion mewn sefydliadau; mae hyn yn dangos sut y gall bwlio, esgeulustod ac ymosodiadau corfforol a rhywiol fwrw gwreiddiau a ffynnu mewn sefydliadau caeedig;
- pobl ifainc sydd wedi datgelu hyd a lled bwlio mewn cymdeithas, gan gynnwys seiber-fwlio ac ecsbloetio rhywiol ar-lein, a arweiniodd at deimladau o gywilydd a dryswch ac a effeithiodd ar syniad o hunan-werth;
- pobl hŷn sydd wedi rhannu eu profiadau nhw o effeithiau dinistriol trais rhwng y cenedlaethau – a niwed na ellir ei symleiddio drwy ei alw'n "*granny bashing*";
- tystiolaeth sefydliadau hunangymorth sydd wedi cynyddu ein dealltwriaeth o gymhlethdodau cam-drin.



Rydym yn **dysgu** gan **blant ysgol, pobl ifainc** a **theuluoedd** pobl sydd wedi cael eu **niweidio**.



Maen nhw eisiau gwneud yn siŵr nad yw'r hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw yn gallu **digwydd** i **unrhyw un arall**.

Yn fwy diweddar yng Nghymru:

- Helpodd “Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais”¹⁰ yr heddlu i ddefnyddio data unedau Damwain ac Achosion Brys i nodi lle roedd troseddau yn digwydd a chaniatáu iddynt ffocysu eu hadnoddau yn y manau hynny;
- Gwrthwynebodd merched ysgol boenydio rhywiol eu cyfoedion ac fe arweiniodd hynny at ddsbarthu cardiau Dydd San Ffolant dychmygus i bob aelod o’r Senedd;¹¹
- Fe gychwynnodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfres o weithdai ledled Cymru yn deillio o gyhoeddi *Chwilio am Atebolwydd: Adolygiad o esgeulustod o bobl hŷn yn byw mewn cartrefi gofal, a ymchwiliwyd yn rhan o Operation Jasmine*;
- Rhannodd perthnasau a ddioddefodd brofedigaethau eu hymdrechion nhw i ddeall effeithiau’r rheolaeth a’r cam-drin a ddioddefwyd gan eu hanwyliaid;¹²
- Aeth yr NSPCC ati i dynnu ynghyd ganlyniadau adroddiadau am blant a phobl ifainc a ddioddefodd niwed ac amlygu drwy hynny yr heriau sy’n gysylltiedig â mesur hyd a lled camdriniaeth ac esgeulustod ledled gwledydd y DG;¹³
- Ysgrifennodd Mair Elliott a Jake Roberts ymateb i Raglen “Gyda’n gilydd dros Blant a Phobl Ifainc”: *Gwneud Synnwyr: adroddiad gan bobl ifainc ar eu iechyd meddwl a’u lles*;¹⁴
- Arolwg cenedlaethol lechyd Cyhoeddus Cymru o Brofiadau Andwyol Plentynod yng Nghymru ¹⁵ a gadarnhaodd rôl dulliau systematig a chymunedol o fynd i’r afael â phrofiadau o’r fath yn ogystal â gwerth rhieni da o safbwynt economaidd ac o safbwynt iechyd.

Mae’r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Alex Jay, bellach wedi agor ei swyddfa yng Nghymru. Drwy gyfrwng Prosiect y Gwirionedd, Gwrandawiaidau Cyhoeddus a Phrosiect Ymchwil, bydd y swyddfa’n ymchwilio i fethiannau sefydliadau i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol yn y gorffennol ac yn y presennol. Bydd yn sicrhau bod y rheiny sy’n gyfrifol am gamdriniaeth yn mynd o flaen eu gwell, ac yn gwneud argymhellion er mwyn diogelu cenedlaethau o blant yn y dyfodol.

Mae i ddatblygiadau a newidiadau o’r fath fwy o lawer o werth ym maes diogelu na’u grym anecdotaidd yn unig. Maent yn brawf o effeithiau cadarnhaol i unigolion ac i arferion proffesiynol ac maent yn cydgysylltu’n agos iawn â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

10 http://www.college.police.uk/News/Newsletter/January2015/Documents/CoP_AE_Guidance_report_final.pdf (cyrchwyd ar 12 Awst 2016)

11 www.youtube.com/watch?v=tZ3Jkq8QIF8 (cyrchwyd ar 5 Gorffennaf)

12 www.youtube.com/watch?v=Tx0-A6jqFWA&app=desktop (cyrchwyd ar 5 Gorffennaf 2016). Yn y cyfweiliad hwn, mae Gwyneth Swain, mam Kim Buckley (46 oed), a mam-gu Kayleigh (17 oed) a hen fam-gu Kimberley (oed 6 mis) yn esbonio sut y bu i’w hwyres gwrdd â’i phartner ar-lein ac nad oedd y teulu’n gwybod dim am ei hanes treisgar yntau. Rheolodd y gŵr hwnnw fywyd ei hwyres a daeth i fod yn eiddgeddus o’u babi. Cyneuodd dân yn eu cartref a gwylio wrth i’r ymdrechion i achub Kim, Kayleigh a Kimberley fethu. Neges Gwyneth i wasanaethau oedd “Gofynnwch sut y gallwch chi helpu”.

13 Bentley, H., O’Hagan, O, Raff, A. & Bhatti, I. (2016) How safe are our children? Llundain: NSPCC

14 <http://www.hafal.org/wp-content/uploads/2015/06/A-report-by-young-people-on-their-well-being-and-mental-health.pdf> (cyrchwyd ar 23 Hydref 2016)

15 Yr Athro Mark Bellis a’i gydweithwyr

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014

Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015



Gyda'i gilydd, nod y cyfreithiau hyn yw sicrhau y **gall pobl wneud dewisiadau** neu dderbyn help i wneud dewisiadau. Rhaid i **weithwyr proffesiynol** ystyried **dyfodol pobl** a gwneud popeth o fewn eu gallu i atal pobl rhag cael eu niweidio ac i helpu pobl sydd wedi cael eu niweidio.

Y nod yw:

- **Cefnogi** pobl fel rhan o **deuluoedd** a **chymunedau**
- Rhoi **llais** a **rheolaeth iddynt**
- **Gwella** gwasanaethau

c. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Daeth Deddf 2014 i rym cyflawn ar 6 Ebrill 2016. Fe ddiddymodd neu fe ddad-gymhwysodd y ddeddf hon ddeddfwriaeth gofal yn y gymuned a fodolai cyn hynny yng Nghymru.¹⁶

Nod Ddeddf 2014 yw integreiddio gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cefnogi pobl o bob oed, a chefnogi pobl fel rhan o deuluoedd a chymunedau – y dull **"pobl"** yw hwn. Fe'i bwriedir i drawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, yn bennaf drwy hybu annibyniaeth pobl er mwyn rhoi mwy o **lais a rheolaeth** iddynt. Y disgwyl yw y bydd integreiddio a symleiddio'r gyfraith yn sicrhau mwy o gysondeb ac eglurder i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol, eu gofalwyr, staff yr awdurdodau lleol, eu sefydliadau partner nhw, ac i'r llys a'r farnwriaeth. Bwriad y Ddeddf, fel y'i nodir, yw hyrwyddo cydraddoldeb a sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau a'r wybodaeth y mae pobl yn eu derbyn. Mae yna ffocws cyfun ar **atal ac ymyrraeth gynnar**. Mae Deddf 2014 yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau i unigolion a hybu lles yr unigolyn. Yn rhan o'r cynllun newydd, mae dyletswyddau newydd i wneud adroddiadau am oedolion a phlant sydd mewn perygl - Ad.126 ac Ad.130 - yn dod i rym, fel y mae'r Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion newydd - Ad.127. Mae Byrddau Diogelu Oedolion a Diogelu Byrddau Plant newydd yn cael eu ffurfio; caiff y Bwrdd Diogelu Gwladol Annibynnol ei gyflwyno ac fe gaiff dyletswyddau newydd eu gosod er mwyn sicrhau cydweithrediad rhwng asiantaethau. [17] Y nod yw gwella'r broses ddiogelu drwy roi'r adrannau hyn ar waith. Ni fwriedir i unrhyw elfen o'r Ddeddf danseilio neu amharu ar ddyletswyddau a phwerau a nodir mewn cynlluniau deddfwriaethol eraill a gynlluniwyd i ddiogelu plant ac oedolion.¹⁸

Hynny yw, mae darpariaeth Deddf Plant 1989 o ran diogelu yn parhau mewn grym ac mae'r darpariaethau sy'n weddill o Ddeddf Plant 1989 yn cydfodoli â darpariaeth Deddf 2014.¹⁹ Fe all plentyn y mae angen gwarchodaeth arni/o yn unol â Deddf Plant 1989 hefyd fod angen gofal a chymorth yn unol â Rhannau 3 a 4 Deddf 2014. Yn yr un modd mae'r dyletswyddau a'r swyddogaethau sydd gan wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, parthed pob plentyn a ddiogelir neu a lochesir, yn cael eu nodi yn Rhan 6 Deddf 2014.

16 Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 • Adran 3 o Ddeddf Pobl Anabl (Cyflogaeth) 1958 • Adran 45 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd a Iechyd y Cyhoedd 1968 • Adranau 1, 2 a 28A o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 • Adran 17 Deddf Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 • Adranau 3, 4 ac 8 o Ddeddf Pobl Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghoriadau a Chynrychioliadau) 1986 • Adran 46 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (DS Mae adran 47 o Ddeddf 1990 yn cael ei ddiwygio fel na fydd yn berthnasol i'r gwaith o asesu a chyflawni anghenion o ran gwasanaethau gofal cymunedol, yn yr ystyr bod y rhain bellach yn cael eu darparu gan delerau Deddf 2014, ond bydd yn parhau i fod yn berthnasol i asesu a chyflawni anghenion yn unol ag adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983) • Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995 • Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995 • Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 • Adranau 49, 50, 54, 56 a 57 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 • Adran 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol 2003 • Deddf Gofalwyr (Cyfleoedd Cyfartal) 2004 • Adran 192 ac Atodlen 15 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 • Deddf Gofal Personol yn y Cartref 2010 • Deddf Costau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 • Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 (DS mae'r mesur hwn yn cael ei ddiddymu o ganlyniad i'r darpariaethau yn adran 14 o Ddeddf 2014 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd lleol gynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth leol, gan gynnwys anghenion gofalwyr).


17 Gweler Ad.167 "Adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth", er enghraifft

18 Mae'r Rheoliadau a wnaed yn Neddf 2014 yn diddymu Adranau 31-34 o Ddeddf Plant 2004. Diddymodd Deddf 2014 Rhan III ac Atodlen 2 o Ddeddf Plant 1989 yng Nghymru (er bod y rheiny'n dal i fod mewn grym yn Lloegr). Nid oes yna ddim yn Neddf 2014 sy'n cael unrhyw effaith sylweddol ar weddill Deddf 1989. Yn benodol, nid oes ddim sydd yn newid y darpariaethau ar gyfer diogelu a welir yn Neddf Plant 1989 (a gynhwysir yn bennaf yn Rhannau IV a V Deddf 1989). Mae Adran 47 Deddf Plant yn dal i fod yn weithredol - fel y mae Adranau 31 a 44 Deddf 1989.

19 Nid yw Rhan III o Ddeddf Plant 1989 yn weithredol bellach yng Nghymru

Mae'r **cyfreithiau newydd** yn cymryd lle rhai **hen gyfreithiau**.

Mae'r **cyfreithiau** newydd yn cyd-fynd yn dda iawn â rhai **hen gyfreithiau**.



Mae'r cwbl at ei gilydd yn debyg i **jig-so** ac yn cynnwys **llawer o ddarnau gwahanol**.

Yng Nghymru, cafodd cyfreithiau strategol eu rhoi ar waith gyda'r bwriad o newid y ffordd yr ydym yn meddwl fel Cenedl ac er mwyn hybu lles y boblogaeth yng Nghymru. Mae *Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015* yn weithredol bellach. Y bwriad yw i Ddeddf 2015 orfodi'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i ystyried effeithiau tymor hir, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, i geisio atal problemau ac i fabwysiadu agwedd fwy cydgysylltiedig. Bydd hynny'n golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus wneud yr hyn a wnânt mewn modd cynaliadwy. Wrth wneud penderfyniadau, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried yr effaith y gallai eu penderfyniadau eu cael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol. Er enghraifft, pan fydd awdurdod lleol yn ystyried adeiladu ysgol newydd neu gyfleusterau hamdden neu yn ystyried cau llyfrgell, rhaid iddo ystyried yn awr nid yn unig anghenion uniongyrchol y gymuned y mae'n ei gwasanaethu ond ei hanghenion yn y dyfodol hefyd. Y bwriad yw sicrhau bod y cynlluniau a wneir gan gyrff cyhoeddus yn hybu lles trigolion Cymru yn y dyfodol.

Caiff y modd y mae Cymru yn ymateb i gam-drin a thrais ei ddiffinio'n gyfreithiol yn *Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*. Nid yw'r Ddeddf hon yn altro'r gyfraith droseddol. Fodd bynnag, nod y Ddeddf yw gwella ymateb Sector Cyhoeddus Cymru i gamdriniaeth o fenywod, ac i wella'r trefniadau ar gyfer hybu ymwybyddiaeth, atal, amddiffyn a chefnogi'r rheiny sy'n dioddef trais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n cyflwyno dull yn-seiliedig-ar-angen, er mwyn datblygu strategaeth gref ac atebolrwydd cynyddol yng nghyd-destun gweithredoedd o'r fath drwy benodi Ymgynghorydd Gweinidogol. Bydd rôl y person hwnnw yn cynnwys cynghori Gweinidogion Cymru a gwella'r cydweithio presennol rhwng asiantaethau yn y sector hwn. Bwriedir i wasanaethau cydgysylltiedig gael eu darparu er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd gwasanaethau ledled Cymru.

Mae'r ddeddfwriaeth Gymreig newydd, ynghyd â Deddf 2014 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn pwysleisio'r symudiad yng Nghymru tuag at sicrhau canlyniadau pendant o ran lles unigolion – a thrwy hynny hybu lles y genedl gyfan. Boed hynny yng nghyd-destun lles yr unigolyn neu yng nghyd-destun y boblogaeth yn gyffredinol, mae'r angen i ddiogelu oedolion a phlant wrth wraidd y syniad o les a hybu lles.

Margaret Flynn yw **Cadeirydd** y **Bwrdd Gwladol**.

Keith Towler yw'r **Is-gadeirydd**.

Aelodau'r Bwrdd Diogelu Gwladol Annibynnol

Margaret Flynn yw Cadeirydd y Bwrdd Diogelu. Cyn hyn, roedd hi'n gadeirydd bwrdd diogelu oedolion Sir Gaerhirfryn a hynny am wyth mlynedd ac fe arweiniodd yr adolygiad o Operation Jasmine a ymchwiliodd i esgeulustod o bobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ddiweddar. Yn ôl Margaret, *"Ugain mlynedd yn ôl, roedd y maes hwn - diogelu plant a diogelu oedolion - yn wahanol iawn. Roedd yna ambell raglen ddogfen, ambell lyfr gan weithwyr proffesiynol ac, yn achlysurol iawn, hunangofiant a fyddai'n disgrifio'r profiad o dyfu i fyny mewn teulu lle nad oedd modd diogelu plant neu a fyddai'n sôn am fywyd mewn sefydliadau penodol a oedd yn hollol ddinistriol. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn helpu'r rheiny sy'n ei chael hi'n anodd goresgyn eu hanesion personol yn ogystal â'r rheiny sy'n ceisio eu helpu nhw; y bydd yn ei gwneud hi'n bosib i oroeswyr, a'u perthnasau, pobl sy'n seinio rhybudd ac i weithwyr proffesiynol gryfhau ac ategu'r gofal greddfol sydd gennym dros ein gilydd a sicrhau ein bod yn creu rhywbeth parhaol a fydd o werth i bob un ohonom."*

Keith Towler yw Is-gadeirydd y Bwrdd. Roedd Keith yn Gomisiynydd Plant Cymru rhwng 2008 a 2015. Yn arbenigwr hawliau plant uchel ei barch, mae ganddo fwy na 30 mlynedd o brofiad o waith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a maes cyfiawnder. Roedd Keith yn aelod o Fforwm Diogelu Plant Gwladol Llywodraeth Cymru ac yn aelod hefyd o'r panel Adolygu ym maes Cyfiawnder Teuluol. Dywed Keith, *"Mae gennym gyfle cyffrous i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn teimlo'n fwy diogel a bod y rhai sy'n wynebu risg yn cael y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i wella ansawdd eu bywydau. Fel aelod o'r Bwrdd Gwladol, dw i am i weithwyr ledled Cymru gymryd agwedd at eu gwaith sy'n seiliedig ar hawliau; gwrando'n weithredol ar blant, pobl ifainc, oedolion a phobl hŷn sy'n wynebu risg a chydabod y gall cenhadu ar eu rhan helpu gweithwyr proffesiynol ac eraill i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Mae'r Ddeddf yn gosod her i ni i gyd – ond does dim sydd wir yn werth ei wneud yn hawdd!"*

Yr aelodau eraill yw:

- **Simon Burch**
- **Ruth Henke**
- **Jan Pickles**
- **Rachel Shaw**

Mae **Simon Burch** yn gyn-Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol. Yn hynny o beth, mae ganddo brofiad diweddar o sefydliadau a'r gwaith ymarferol o gefnogi pobl sydd yn wynebu risg o gam-drin neu niwed. Mae gan Simon ddiddordeb arbennig mewn cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a'r modd y datblygir perthnasoedd llawnion a diogel. Dywed Simon: *"I mi, mae diogelu yn golygu dau beth cysylltiedig: adeiladu cymunedau cydlynol, cyfartal a chyd-gefnogol lle gallwn ni i gyd ffynnu, a pharhau i wella ein systemau diogelu fel bod lleisiau a dyheadau plant ac oedolion sydd mewn perygl yn gyrru gwaith pob un ohonom. Yng Nghymru, mae gennym y bobl, y fframwaith deddfwriaethol a'r angerdd er mwyn gwneud hynny - os gwrandawn ni ar yr hyn sy'n bwysig i bobl ac ymddiried hefyd yn ein staff i weithio ar y cyd â nhw."*

Mae **Ruth Henke** QC yn arbenigwr ar y gyfraith sy'n ymwneud ag oedolion a phlant ac mae hi wedi gweithredu ar ran awdurdodau Cymreig lleol, byrddau iechyd, rhieni a pherthnasau, ac ar ran oedolion â diffyg galluedd a phlant. Yn ôl Ruth, *"Wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diogelu, rhaid i ni sicrhau bod y gyfraith yn cael ei pharchu, bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth ac nad ydym yn colli golwg ar y pictiwr mwy."*

Mae **Jan Pickles** OBE yn weithiwr cymdeithasol profiadol ac mae ganddi brofiad o'r trydydd sector, y gwasanaeth prawf, yr heddlu, y llywodraeth a'r NSPCC. Arweiniodd Jan ddatblygiad y gynhadledd asesu risg aml-asiantaethol (MARAC), sy'n ceisio sicrhau diogelwch i ddioddefwyr a phlant sy'n dioddef trais domestig a rhywiol a chamdriniaeth. Mae'r gynhadledd honno bellach yn fodel cenedlaethol. Yn ôl Jan, *"Mae diogelu yn ymwneud â phobl, nid prosesau. Oni bai ein bod ni'n cyd-ymdrechu i sicrhau canlyniadau o bwys i blant, pobl ifainc ac oedolion, ni waeth pa mor heriol eu amgylchiadau, nid oes ddiben i brosesau. I mi, mae diogelu yn ymwneud â sicrhau bod gan bobl ddewisiadau, yn arbennig felly yn eu perthnasau - ac mae'n rhaid i'r rheiny fod yn annibynnol ar unrhyw orfodaeth annynol."*

Mae **Rachel Shaw** yn nyrs, bydwaig ac ymwelydd iechyd ac mae ganddi brofiad sylweddol o fyd iechyd. Mae hi wedi cyfrannu at adolygiadau o arferion gwaith fel adolygydd ac fel cadeirydd panel hefyd. Dywed Rachel, *"Gwelsom o ystyried profiadau pobl a gafodd eu cam-drin bod gormod o fywydau yn cael eu difetha gan ddioddefaint tawel. Mae gallu teimlo'n ddiogel yn un o'n hawliau dynol sylfaenol, ar hyd ein bywydau. Dysgom hefyd bod deall chamdriniaeth o safbwynt pobl sydd wedi dioddef yn rhoi cipolwg ar ffyrdd posib o helpu pobl i oresgyn eu profiadau; mae'r bobl yma'n ysbrydoli pob un ohonom i geisio sicrhau nad yw pobl eraill yn dioddef. Mae gennym gyfle i atgyfnerthu a grymuso unigolion, cymunedau a gweithwyr proffesiynol a'u hannog nhw i ymdrechu i wneud dysg o'r fath yn ganolog i bob peth a wnawn."*

Mae'r Bwrdd Gwladol wedi cyfarfod â **Chadeiryddion y 12 Bwrdd Diogelu**, ac â

- **phrif arolygwyr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**
- **a phrif arolygwyr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).**



Fe drafodon nhw yr **heriau** sydd ynghlwm â **diogelu** pobl.

Mae'r **Bwrdd Gwladol** yn awyddus i wneud yn siŵr bod **hyfforddiant diogelu** yn cysylltu'n agos â dulliau gwaith ymarferol.

Atodiad 1: Nodiadau o ymgynghoriad NISB gyda Chadeiryddion y Byrddau Diogelu ac arweinwyr AGGCC ac AGIC ar 23 Awst, 2016

Dosbarthwyd drafft o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwladol cyn y cyfarfod. Gwahoddwyd mynychwyr i ddiwygio / datblygu ac ychwanegu at yr heriau sy'n wynebu'r Byrddau Diogelu a nodwyd yn y drafft. Ystyriodd yr ymgynghoriad y pynciau canlynol:

- Yr angen am lwybr clir rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a chanllawiau statudol a gweithdrefnau. Mynegwyd pryder bod Llywodraeth Cymru fel petai'n gosod **gweithdrefnau uwchlaw canllawiau statudol**;
- Yr angen i gydlynu ar raddfa sylweddol os yw cannoedd o asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau am ymwneud mewn modd credadwy â'r gofynion statudol newydd;
- Mae cyflwyno Deddf 2014 yn **gofyn am newid diwylliant** a fydd yn cymryd peth amser. Er mor heriol fydd hyn i **weithlu unigol**, mae diogelu yn weithgarwch **aml-asiantaeth**, aml-bartneriaeth, cydweithredol. Er y gall awdurdodau a byrddau iechyd lleol fod yn sicr o allu manteisio ar staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol hyfforddedig, fe allai darparwyr eraill ei chael hi'n anodd cael **mynediad i hyfforddiant** ym maes diogelu;
- Does yna ddim ffordd syml o gysylltu hyfforddiant diogelu â gwaith ymarferol neu o sicrhau ymwybyddiaeth o'r hyn a olygir pan sonnir am **ddiogelu da** mewn maes cynyddol arbenigol ond tameidiog;
- Mae **arbenigedd** mewn gwaith diogelu yn ddefnyddiol o ran sicrhau cefnogaeth wleidyddol ac ariannol. Fodd bynnag, mae hi'n bwysig chwalu'r **gamdybiaeth** mai **cyfrifoldeb arbenigwyr yn unig** ydyw;
- Fe allai'r her o ddarparu **gwasanaethau diogelu yn y Gymru wledig** gael ei hanwybyddu. Mae gan y Gymru wledig boblogaeth a gweithlu llai o faint a mwy gwasgaredig, o gymharu ag ardaloedd trefol. Hefyd, efallai y bydd yna wahanol fesurau ar gyfer diogelu gan Fyrddau Iechyd, yn ogystal â phwysau o ran daearyddiaeth, teithio a mynychu cyfarfodydd;
- Mae yna dyndra rhwng diogelu plant a diogelu oedolion. **Gall diogelu plant ymddangos yn fwy aeddfed fel maes na diogelu oedolion** am i'r fframwaith cyfreithiol sy'n sail ar gyfer ymyrraeth darddu i raddau helaeth o Ddeddf Plant 1989. Ar y llaw arall, cyn Deddf 2014, nid oedd yna unrhyw fframwaith cyfreithiol clir a oedd yn cydnabod diogelu oedolion. Mae gwahaniaethau sylfaenol eraill yn cynnwys ystyriaethau o "amddiffyn vs ymreolaeth," galluedd meddyliol ac absenoldeb rôl sy'n cyfateb i **rianta corfforaethol ("corporate parenting")**;
- Yn wyneb cyni cyllidol parhaus, mae hi'n bwysig meithrin **arferion gwaith sydd yn economaidd sefydlog**. Ar hyn o bryd mae yna oedi'n gysylltiedig â gwaith rheng flaen fel trefnu cyfarfodydd strategol ac ymdrin ag elfennau o waith diogelu nad ydynt wedi eu cyllido, elfennau fel comisiynu adolygiadau gwaith. Mae Cadeiryddion rhai Byrddau Diogelu yn treulio cyfnodau anghymesur yn negodi cyllid gan asiantaethau partner;²⁰

²⁰ Gweler y canllawiau statudol ar gyfer Ad.138 Deddf 2014: Dylai'r cyfraddau cyllido ar gyfer partneriaid y Byrddau Diogelu i bob Bwrdd fod fel a ganlyn: • awdurdod lleol 60% (ar gyfer yr awdurdodau lleol ar Fwrdd Diogelu, dylai fod yna raniad cymesur yn seiliedig ar faint y boblogaeth gyffredinol); • byrddau iechyd lleol 25% (lle ceir dau fwrdd iechyd lleol dylai fod rhaniad cymesur yn seiliedig ar faint y boblogaeth gyffredinol); • yr heddlu 10%; • y gwasanaeth prawf 5% (mae'r gwasanaethau prawf yn cynnwys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol)



Mae'r **Bwrdd Gwladol** wedi ystyried ffyrdd gwahanol o **ddysgu** am effeithiolrwydd y **Byrddau Diogelu** a'u gallu i wneud **gwahaniaeth**.

Mae'n gwybod y gall **rhai** pethau amharu ar y gwaith o ddarparu gwasanaeth da, pethau fel:

- **Methu â thynnu sylw** at bobl mewn perygl
- Methu â threulio digon o **amser** gyda phobl sydd wedi eu **niweidio** er mwyn **dysgu** ar sail eu profiadau.
- **Toriadau** cyllidol i **wasanaethau**

- A yw Byrddau Diogelu a'r Byrddau Rhanbarthol **yn gwneud gwahaniaeth**? A oes yna ddadl o blaid ymgymryd â **dadansoddiad cost a budd** o waith Byrddau Diogelu o ran eu gwaith atal, eu hymatebolrwydd i atgyfeiriadau a'u canlyniadau unigol?
- Mae angen llawer o drafod a phennu ffiniau ar y cyd ag arolygiaethau, Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, asiantaethau Diogelwch Cymunedol, Arolygiadau Dynladdiad Domestig / Gwaith â Phlant / Arolygiadau o Waith ag Oedolion, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf, Cefnogi Pobl, rheoleiddwyr proffesiynol, adrannau cwynion, a gwasanaethau Datgelu a Gwahardd, er enghraifft;
- A oes yna ddigon o eglurder parthed digwyddiadau clinigol esgeulus? Mae angen tryloywder o ran yr hyn sy'n cael ei reoli'n fewnol / yn lleol a'r hyn sy'n cael sylw ehangach;
- Mae angen gwahaniaethu rhwng unigolion sydd yn wynebu risg a grwpiau o bobl sydd yn wynebu risg oherwydd yr amgylchfyd y maent yn derbyn gwasanaeth a / neu yn byw oddi mewn iddo;
- Sut mae ysgol yn gwybod ble i atgyfeirio plentyn y mae pryderon yn codi am ei ddiogelwch? **Mae angen o hyd i bennu goblygiadau Deddf 2014 yng nghyd-destun byd addysg** er budd llywodraethwyr ysgolion yn benodol. Er yr ariennir addysg o'r pwrs cyhoeddus, nid pob pennaeth ysgol sydd yn barod i dderbyn y gofynion parthed diogelu plant;
- **Gwaith ar y gweill yw'r broses o ymgysylltu â'r rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau diogelu** yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae'n waith sy'n gofyn am dipyn o adnoddau am fod yn rhaid i'r gwaith fod yn barhaus;
- Does yna ddim digon o ddarpariaeth ar gyfer y rheiny sydd wedi dioddef camdriniaeth;
- Mae angen statudol i Fyrddau Diogelu fynnu canlyniadau gan asiantaethau ond, y tu hwnt i gyfarfodydd y Bwrdd, beth a wyddys am ba mor drylwyr yw'r broses hon?
- Caiff gwaith rhyngasiantaethol ei beryglu gan (i) ymwneud staff iau nad ydynt mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau yn ystod cyfarfodydd Byrddau Diogelu, gan (ii) aelodaeth amharhaol o Fyrddau Diogelu a chan (iii) ddiffyg ymwneud asiantaethau sydd yn gweithio ym maes atal niwed a cham-drin;
- Nid yw hi'n bosib cynnig arolygon neu drosolygon os yw gwybodaeth yn cael ei thrin yn ddirgel. Beth yw **canfyddiadau adolygiadau a data diogelu**? Mae'r rhain yn nodweddion hirsefydlog ar y maes diogelu. Fodd bynnag, oni bai ein bod yn edrych yn ôl ac yn ystyried Adolygiadau o Achosion Difrifol ac adroddiadau arolygu oddi mewn i amserlen eang, mae yna risg o fethu â deall natur ddatblygol gwaith diogelu yng Nghymru. Os yw Byrddau Diogelu yn ansicr ynghylch (i) lle i ddod o hyd i wybodaeth bresennol a (ii) pa wybodaeth sydd ei hangen, mae perygl i waith diogelu golli ffocws;
- Mae adroddiad annibynnol Alexis Jay a Kathy Somers o Fwrdd Diogelu Gogledd Iwerddon²¹ yn tanlinellu pwysigrwydd cyflawni cyfrifoldebau statudol.

²¹ <https://www.health-ni.gov.uk/publications/independent-review-safeguarding-board-northern-ireland-sbni> (cyrchwyd ar 30 Awst 2016)

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015.

Nid yw **Deddf Galluedd Meddyliol** yn cael ei heffeithio gan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles**.

Mae **Deddf Galluedd Meddyliol** yn berthnasol i **oedolion nad** ydyn nhw'n **gallu** gwneud **penderfyniadau** drostynt **eu hunain**.

Nid yw **Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd** yn cael ei heffeithio gan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles**.



Mae pob un o'r **deddfau** hyn yn ei gwneud hi'n gwbl glir **FOD GAN BAWB HAWL I GAEL EU GWARCHOD RHAG NIWED.**

Atodiad 2: Y cysylltiad rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a (i) Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a (ii) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn parhau i ddarparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer oedolion â diffyg galluedd fel y'i diffinnir yn y Ddeddf honno. Mae Deddf 2014 yn bodoli ar y cyd â Deddf 2005. Gall person â diffyg galluedd hefyd fod yn berson ag anghenion gofal a chymorth y dylid neu y gellid eu diwallu yn unol â Deddf 2014. Yn ddibynol ar eu hamgylchiadau, fe allai'r oedolion hynny hefyd fod yn oedolyn sy'n wynebu risg, fel y diffinnir hynny yn Ad.126 Deddf 2014.

Nid yw'r gyfraith droseddol yng Nghymru a Lloegr yn cael ei heffeithio gan y newidiadau diweddar yng Nghymru a ddaeth i fod yn yn sgil Deddf 2014. Mae gan y rheiny sydd wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, a boed y rheiny'n blant neu'n oedolion, hawl ar warchodaeth gyflawn y gyfraith droseddol. Pennwyd troseddau penodol dros y blynyddoedd i ddelio â sefyllfaoedd penodol sydd yn berthnasol i'r rheiny a allai fod yn wynebu risg. Mae hi'n werth pwysleisio ei bod hi'n drosedd o hyd, yn unol ag Ad. 44 Deddf Galluedd Meddyliol 2005, i gam-drin neu i esgeuluso yn fwriadol berson â diffyg galluedd neu berson y credir fod ganddo ddiffyg galluedd. Mae yna ddyletswydd o hyd, yn unol ag Ad.3 Deddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, sydd yn berthnasol i gyflogwyr a'r hunan-gyflogedig fel ei gilydd, i sicrhau amodau lle gall pobl gwblhau eu gwaith yn y fath fodd ag i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, nad yw pobl sy'n cael eu cyflogi ac a allai gael eu heffeithio gan weithredoedd y cyflogwr, yn wynebu peryglon i'w hiechyd neu i'w diogelwch. Yn ôl Ad. 127 Deddf lechyd Meddwl 1983, mae yna droseddau penodol parthed camdriniaeth neu esgeulustod o gleifion â salwch meddwl, pa un ai yw'r cleifion hynny yn gleifion mewnol ai peidio.

Diffiniodd Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 ddwy drosedd newydd benodol. Yn unol ag Ad. 20 (1) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015, mae unigolyn sy'n gofalu am unigolyn arall (plentyn neu oedolyn) yn rhinwedd y ffaith ei fod yn weithiwr gofal (a gyflogir gan fwrdd iechyd neu wasanaeth gofal cymdeithasol) wedi ei wahardd rhag cam-drin neu esgeuluso'n fwriadol yr unigolyn hwnnw. Bydd darparwr gofal bellach yn cyflawni'r drosedd o gam-drin neu esgeuluso os yw gweithgareddau'r darparwr gofal yn cael eu trefnu neu eu rheoli mewn ffordd sy'n gyfystyr â thoriad o'r ddyletswydd o ofal sy'n ddyledus i'r unigolyn dan sylw (Ad. 21). Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y warchodaeth a roddir i blant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael ei chyfyngu i'r troseddau penodol hyn. Mae gan bawb hawl ar warchodaeth gyfartal gan y gyfraith. Mae ymosodiadau - yn eu holl ffurfiau amrywiol - yn anghyfreithlon.

Diolchiadau

Diolch yn fawr i bob un a gyfrannodd syniadau a gwybodaeth i'r Adroddiad Blynyddol hwn. Estynnwn ddiolch arbennig i Pobl yn Gyntaf Cymru a dderbyniodd yr her o gynhyrchu crynodeb 'hawdd-ei-ddarllen' i gyd-fynd â'r adroddiad ac yn arbennig i Joe Powell, Cyfarwyddwr Cenedlaethol y sefydliad hwnnw. Diolch hefyd i Adam Chard o gwmni dylunio Croatoan. Roedd parodrwydd Joe ac Adam i roi o'u sgiliau ac i 'gyd-gynhyrchu' yr adroddiad hwn yn fodd i sicrhau profiad ysbrydoledig a phleserus.